**Cofnodion o Gyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022 10:00-11:30 MS Teams**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**
Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Jane Mudd (Casnewydd)
Y Cyng. Ian Roberts (Sir y Fflint)
Y Cyng. Llinos Medi (Ynys Môn) (tan 10.30)
Y Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn (Gwynedd)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**
Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Prif Swyddog Cyllid, Torfaen

**Swyddogion Trysorlys Cymru**
David Greenough – Trysorlys Cymru
Tom Cleaver – Trysorlys Cymru

**Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru**
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
James Koe – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Emma Watkins – Y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Matthew Wellington – Y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth

**YMDDIHEURIADAU**
Y Cyng. Paul Griffiths (Mynwy)
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu'r cytuno COVID

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau newydd i'r cyfarfod, gan grynhoi rôl a diben y Grŵp a nodi'r ymddiheuriadau.

**Eitem 2: Cofnodion a Materion yn codi o'r Cyfarfod Blaenorol**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf, gan nodi a diweddaru camau gweithredu.

**Eitem 3: Diweddariad gan y Gweinidog**

3. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r gyllideb hyd at 2024-25 a'r cyd-destun economaidd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau pwysau chwyddiant, yr argyfwng costau byw parhaus, y rhyfel yn Wcráin, ac adfer o effeithiau'r pandemig. Nododd yr heriau a oedd yn debygol o godi yn sgil y gyllideb a gyhoeddir maes o law.

4. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl darparu cyllideb i Gymru ym mis Rhagfyr, ar ôl cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar ei chyllideb hi. Croesawodd y Gweinidog y gwaith yr oedd CLlLC wedi ei gyflawni, a'r gwaith pellach yr oedd yn bwriadu ei gyflawni, i ddatblygu darlun clir o flaenoriaethau llywodraeth leol o ran cyllid ac asesu pwysau, i helpu i lywio trafodaethau'r Llywodraeth.

5. Tynnodd y Gweinidog sylw'r grŵp at gyhoeddi'r ymgynghoriad ar dreth gyngor decach. Roedd hyn yn gam cyntaf tuag at gyflawni ymrwymiad y rhaglen lywodraethu a'r cytundeb cydweithio i weithredu system decach a mwy blaengar. Roedd wedi cyfarfod ag Arweinwyr a Llefarwyr Cyllid ar 29 Mehefin i fynd drwy'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys egwyddorion cynllunio lefel uchel. Bydd angen cynnal ymgynghoriad pellach ar faterion cynllunio manylach. Roedd y Gweinidog yn edrych ymlaen at gael ymatebion i'r ymgynghoriad.

6. Nododd y Gweinidog ddiwedd y gronfa galedi gan fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r rheini a oedd wedi cymryd rhan, a thimau cyllid yr awdurdodau lleol yn benodol, am eu hymdrechion diflino yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Diolchodd y Cyng. Hunt i'r Gweinidogion a swyddogion am y cymorth a ddarparwyd drwy'r gronfa, a oedd wedi gadael awdurdodau mewn sefyllfa well i wynebu heriau'r dyfodol, gan ddiolch iddynt hefyd am y modd yr oeddent wedi cydweithio gyda llywodraeth leol. Awgrymodd y byddai llythyr o ddiolch ar y cyd at dimau cyllid awdurdodau lleol yn cael ei groesawu.

   **CAM GWEITHREDU: Cytuno ac anfon llythyr o ddiolch ar y cyd**

7. Diolchodd y Gweinidog i lywodraeth leol am ei hymateb i'r argyfwng yn Wcráin, gan nodi bod memorandwm cyd-ddealltwriaeth bellach wedi ei gytuno â'r DU ar gyfer cyllid tariffau cyffredinol a thaliadau diolch i'r rheini sy'n darparu llety. Dim

ond am flwyddyn gyntaf y cynllun yr oedd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau cyllid a dim cyllid ar gyfer yr effeithiau ar y cynllun teuluol. Roedd yn parhau i godi'r pwyntiau hyn gyda Gweinidogion y DU. Mae swyddogion wrthi'n llunio fersiynau terfynol o'r canllawiau cyllid a'r ffurflenni hawlio chwarterol ar gyfer awdurdodau lleol. Diolchodd y Cyng. Siencyn i'r Gweinidog gan nodi bod y ganolfan groeso yn ei ardal yn gweithredu'n effeithlon ond bod y staff o dan bwysau sylweddol. Roedd yn disgwyl y byddai tai yn fater mwy tymor hir nag a ragwelwyd.

8. Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn byr yn cadarnhau manylion y cyllid a ddarperir i helpu awdurdodau lleol i gefnogi pobl o Wcráin sy'n dod i Gymru.

   **CAM GWEITHREDU : Anfon nodyn byr at yr aelodau yn rhoi manylion y trefniadau cyllid**

**Eitem 4: Diweddariad CLlLC ar faterion cyllid llywodraeth leol.**

9. Cafodd CLlLC ei gwahodd gan y Gweinidog i roi diweddariad ar faterion llywodraeth leol. Cyflwynodd CLlLC bapur 2 a oedd yn crynhoi asesiad cynnar o'r pwysau gwario sydd ar lywodraeth leol, gan gyfeirio at yr adroddiad Dadansoddiad Cyllidol Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Roedd y papur yn cydnabod y pwysau y byddai'r dreth gyngor, a'r gyfradd CPI a ragwelir, yn eu cael ar gyllidebau cartrefi, gan nodi diffygion a ragwelir o £98m yn 2023-24 a £150m yn 2024-25 mewn cyllid llywodraeth leol.

10. Pwysleisiodd aelodau'r grŵp yr angen i rannu gwybodaeth am y pwysau a wynebir, a sut y gellid eu hwynebu ar y cyd. Nododd y Cyng. Medi'r ffaith bod pwysau'r gaeaf mewn gofal cymdeithasol yn ddigwyddiad blynyddol, a bod cyllid grant yn cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn, ac y byddai darparu cyllid drwy'r setliad yn gymorth wrth flaengynllunio. Diolchodd y Cyng. Pritchard i'r Gweinidog am y setliad a gafwyd, ond cododd bryderon ynghylch y pwysau ar ofal oedolion a gofal cymdeithasol yn benodol.

    **CAM GWEITHREDU: Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfod ag Arweinwyr i drafod y pwysau a achosir gan gostau ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau cymdeithasol.**

**Eitem 5: Ymgynghoriad ar ardoll ymwelwyr**

11. Diolchodd y Gweinidog i swyddogion Trysorlys Cymru am eu gwaith ar yr ardoll ymwelwyr, ac i awdurdodau lleol am gefnogi'r gwaith hwnnw. Rhoddodd swyddogion Trysorlys Cymru gyflwyniad ar y Rhaglen Ardoll Ymwelwyr i ddatblygu ardoll ymwelwyr yn ôl disgresiwn. Dywedwyd bod bwriad i gynnal ymgynghoriad yn nes ymlaen eleni.

12. Cododd y Cyng. Pritchard bryderon ynghylch effeithiau'r ardoll dwristiaeth ar dwristiaeth yng Nghymru, gan ddweud y byddai'n rhaid ei gweithredu'n ofalus. Croesawodd y Cyng. Siencyn y syniad o ardoll ar ymwelwyr i helpu awdurdodau lleol i ddiogelu cymunedau a gwella profiad yr ymwelydd. Roedd y Gweinidog yn cydnabod yr angen i ymgysylltu'n effeithiol ar draws y diwydiant er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy.

**Eitem 6: Dadansoddiad o'r Fformiwla Cyllido ar gyfer Setliad Refeniw Llywodraeth Leol.**

13. Cyflwynodd y Gweinidog y swyddogion o Lywodraeth Cymru a oedd yn cyflwyno papur 3.

14. Rhoddodd Judith Cole amlinelliad o'r papur a oedd wedi ei ddatblygu drwy'r Is-grŵp Dosbarthu. Roedd y papur yn egluro'r fformiwla cyllido a sut yr oedd penderfyniadau'n cydbwyso'r gallu i ymateb i amgylchiadau sy'n newid a sefydlogrwydd ar gyfer cyllidebau awdurdodau lleol. Nododd Jon Rae fod ystyriaeth wedi ei rhoi i ddiweddaru'r data hynaf a oedd yn gysylltiedig â gwasgaru yn dilyn cyfrifiad 2001. Bryd hynny ac wedyn roedd yr Is-grŵp Cyllid wedi penderfynu na ddylid diweddaru'r data oherwydd yr effaith ar ddyrannu.

15. Cododd y Cyng. Pritchard bryderon ynglŷn â defnyddio cyfrifiad 1991 ar hyn o bryd, a pha mor ddibynadwy yw'r ffigurau poblogaeth. Cododd y Cyng. Roberts bryderon am gysondeb blynyddoedd y setiau data a ddefnyddiwyd yn y fformiwla. Eglurodd Judith Cole bod dyrannu 80% o'r cyllid yn cael ei gyfrifo'n seiliedig ar setiau data sy'n cael eu diweddaru bob blwyddyn. Roedd y ffigurau poblogaeth yn cael eu diweddaru bob blwyddyn drwy ddefnyddio amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth yr ONS fel y bo'n briodol. Roedd yr Is-grŵp Dosbarthu yn ystyried y newidiadau hyn bob blwyddyn. Roedd y dangosyddion yn cynnwys yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, er enghraifft roeddent yn cynnwys hyd ffyrdd er mwyn adlewyrchu'r angen i'w trwsio. Nododd y Cyng. Mudd yr angen i sicrhau bod pob awdurdod yn deall sut yr oedd y fformiwla'n gweithredu a'u bod yn hyderus ynghylch y sicrwydd a ddarperir o ran tegwch y trefniadau llywodraethu. Nodwyd bod aelodau'r Is-grŵp Dosbarthu yn cael eu tynnu o amrywiaeth o fathau o awdurdod a'u bod hefyd yn cynnwys aelodau annibynnol, a'u bod yn ystyried newidiadau i'r fformiwla yn ofalus o fewn y cyd-destun ariannol sy'n bodoli ar y pryd. Roedd CLlLC i gynnig cyfle penodol ar gyfer deall y fformiwla'n fwy manwl. Nododd y Gweinidog ei bod yn bosibl y byddai Aelodau'r Senedd hefyd yn dymuno cael rhagor o wybodaeth.

    **Cam gweithredu : Byddai'r Is-grŵp Cyllid yn ystyried adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu a'r rhaglen waith mewn cyfarfodydd dilynol.**

### Eitem 7: Diweddariad gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

16. Darparodd Peter Curran ddiweddariad ar y prif faterion cyllid sy’n wynebu’r heddlu yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys dyfarniad cyflog i’r heddlu o 3%, lefelau staffio, y twf cymharol isel yn y sylfaen dreth gyngor yng Nghymru, a’r pryderon parhaus ynglŷn â gweithredu’r ardoll brentisiaethau. Rhoddodd ddiweddariad ynghylch gwaith y Swyddfa Gartref ar fformiwla cyllido’r heddlu, y costau ychwanegol sy’n codi oherwydd plismona yn y brifddinas, a lefelau amddifadedd yng Nghymru.

### Eitem 8: Unrhyw fater arall

17. Dim materion eraill.